Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
## Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Bro Aled Llansannan**
**Llansannan**
**Dinbych**
**Conwy**
**LL16 5HN**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Bro Aled wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Bro Aled oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau rhifedd disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r cynlluniau mathemateg yn briodol er mwyn sicrhau dilyniant clir ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifedd ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o amser wedi bod i hyn wreiddio'n llawn er mwyn effeithio'n gadarn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio eu dealltwriaeth o adio a thynnu yn briodol i ddatrys posau rhif. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau defnyddio'r pedwar gweithred yn briodol i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion yn adnabod priodweddau siapiau dau a thri dimensiwn yn llwyddiannus. Maent yn darllen yr amser ar glociau analog yn gywir, gyda disgyblion mwy abl yn darllen i'r pum munud agosaf. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio gwybodaeth am sawl diwrnod mae'n cymryd i'r holl blanedau gylchdroi o gwmpas yr haul i lunio graff bar.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae llawer yn mesur onglau yn gywir ac yn adnabod onglau llem ac aflem yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o debygolrwydd. Gan amlaf, mae gweithgareddau yn dechrau cynnig mwy o her i ddisgyblion mwy abl, er enghraifft wrth ddefnyddio eu dealltwriaeth o amser i ddatrys problemau am deithio. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn gymwys ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu tymheredd mewn gwahanol wledydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd er mwyn creu graff. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro yn cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm i'r un safon ag yn eu gwersi mathemateg.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynlluniau cyfnod allweddol 2 yn ymateb i'r cwricwlwm cyfredol ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn fwriadus

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol gydag athrawon ymgynhorol i greu cynlluniau iaith, rhifedd a gwyddoniaeth priodol. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau dilyniant clir wrth ddatblygu medrau pwnc ar draws cyfnod allweddol 2.

Mae'r cynlluniau iaith yn galluogi athrawon i adeiladu ar ddealltwriaeth disgyblion o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn gydlynol. Enghraifft effeithiol o hyn yw defnyddio geirfa perswâd i ysgrifennu adroddiad ynglŷn â pheidio â lladd eliffantod ar gyfer eu ysgithrau. Mae'r cynllun rhifedd newydd yn sicrhau trosolwg buddiol o'r medrau ar draws y flwyddyn. Mae hyn yn galluogi athrawon i gynllunio gweithgareddau mwy ymestynnol ar gyfer datblygu medrau disgyblion sydd eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifedd disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau mwy manwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn draws-gwricwlaidd. Mae'r cynlluniau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2, yn enwedig eu medrau llythrennedd.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan ymestyn lefel yr her i ddisgyblion mwy abl a datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Erbyn hyn, mae strwythur staffio'r ysgol yn sefydlog. Mae'r berthynas waith dda sy'n bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr yn sicrhau ffocws clir ar wella ansawdd yr addysgu a safonau disgyblion. Ers yr arolygiad, mae athrawon wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a chyfleoedd gwerthfawr i ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda. Mae hyn wedi dechrau cael effaith bositif ar rai agweddau o'r addysgu ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio amcanion clir i wersi ynghyd â meini prawf llwyddiant addas ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o beth maent yn dysgu a sut i lwyddo yn y dasg. Mae'r ysgol wedi addasu'r cynllun marcio yn briodol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn dathlu llwyddiannau disgyblion ac yn cynnig ffordd addas ymlaen. Fodd bynnag, nid yw sylwadau yn llyfrau disgyblion bob tro yn ddigon clir i arwain at welliant yn safon eu gwaith.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r cynlluniau gwaith newydd, ynghyd â syniadau disgyblion, i ddarparu gweithgareddau dysgu diddorol. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r system olrhain cynnydd, canlyniadau profion a data o raglenni electronig yn briodol er mwyn targedu grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn addas. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr i hybu disgyblion i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu, er enghraifft drwy amseru gweithgareddau cadw'n heini. Mae hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar allu'r mwyafrif i weithio'n annibynnol.

**Argymhelliad 4: Cryfhau arweinyddiaeth yr ysgol i weithredu'n fwy strategol er mwyn arfarnu prosesau'r ysgol a gwella cyflawniad disgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn dilyn cyfnod staffio ansefydlog tu hwnt, mae'r pennaeth, sydd wedi bod yn ei swydd ers tymor, wedi datblygu gweledigaeth glir ac unedig ar gyfer yr ysgol. Yn ystod y cyfnod byr hwn, mae wedi sicrhau cyfleoedd buddiol er mwyn datblygu medrau arweinyddol athrawon. Mae cyfrifoldebau staff a llywodraethwyr yn glir ac maent yn deall eu rolau a'u disgwyliadau'n dda. O ganlyniad, mae ethos cadarn o gydweithio yn datblygu rhwng y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni ac maent yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm.

Mae cyfeiriad strategol yr ysgol bellach yn gadarn ac yn seiliedig ar werthuso gwaith yr ysgol a chynnydd disgyblion yn ofalus. Yn ddiweddar, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi cryfhau yn dilyn cefnogaeth gan bennaeth profiadol mewn ysgol gyfagos. Mae deilliannau'r gweithgarwch hwn wedi ffurfioli cyfarfodydd staff a llywodraethwyr ac wedi sicrhau ffocws clir ar wella cyflawniad disgyblion.

Ers mis Medi, mae athrawon a llywodraethwyr wedi cwrdd ar y cyd er mwyn trafod a gosod gweledigaeth strategol i'r ysgol. Yn dilyn ymgynghoriadâ'r cyngor ysgol, mae arweinwyr hefyd wedi sefydlu arwyddair newydd sydd wedi cryfhau'r synnwyr o hunaniaeth ymysg rhanddeiliaid a chymuned Llansannan. Mae cofnodion yr holl gyfarfodydd hyn yn fanwl ac mae camau gweithredu yn glir ac yn cael eu monitro'n effeithiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu amserlen gynhwysfawr ar gyfer hunanarfarnu, sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwrando ar ddysgwyr. Maent yn defnyddio tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn yn effeithiol i werthuso cynnydd yn erbyn yr argymhellion ac i ystyried blaenoriaethau pellach ar gyfer gwelliant. Yn sgìl y datblygiadau hyn, mae gan yr ysgol ffocws strategol da ar wella darpariaeth, sydd yn cychwyn cael effaith ar godi safonau disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol wrth gynllunio ar gyfer gwelliant, gan sicrhau eu bod yn cyflwni eu dyletswyddau statudol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae aelodau'r corff llywodraethol wedi datblygu eu rolau'n helaeth, a bellach mae ganddynt weledigaeth glir. O dan arweiniad cadeirydd gwybodus a chydwybodol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ac maent yn rhan annatod o drefniadau'r ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae llywodraethwyr wedi mynychu nifer o gyrsiau, yn cynnwys rhai i lywodraethwyr newydd. Mae hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol a'u cynorthwyo i herio perfformiad yn fwy effeithiol. Mae llywodraethwyr bellach yn llawer mwy gweithredol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o ddifrif. Mae ganddynt gyfrifoldebau penodol ac mae'r is-bwyllgorau statudol oll wedi eu sefydlu.

Mae amserlen ffurfiol wedi ei threfnu ar gyfer ymweliadau gan lywodraethwyr â’r ysgol i graffu ar lyfrau, siarad â’r disgyblion ac i arsylwi gwersi. Yn dilyn y gweithgarwch hwn, mae llywodraethwyr yn paratoi adroddiad ysgrifenedig defnyddiol i weddill yr aelodau. Mae’r adroddiadau hyn yn rhan annatod o broses hunanarfarnu'r ysgol ac yn ffynhonnell werthfawr i’w galluogi i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n gadarn. Maent yn cychwyn cynllunio’n llawer mwy strategol ar gyfer gwelliant ac yn herio’r pennaeth wrth fonitro cynnydd yn fwy deallus.

Nodwedd amlwg o waith y llywodraethwyr yw eu hymroddiad i ymweld â’r ysgol yn rheolaidd. Maent yn gefnogol iawn ac yn gyfranwyr brwdfrydig i weithgareddau cymdeithasol a drefnir. Mae hyn yn hyrwyddo’r berthynas agos sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned yn effeithiol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i’r afael â’r materion diogelu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu. Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cydweithio’n agosâ’r awdurdod lleol er mwyn mynd i’r afael â’r materion iechyd a diogelwch a godwyd. Mae camau priodol wedi eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion sydd bellach wedi dileu’r pryder yn llwyr.

**Argymhelliad 7: Cryfhau’r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir y meysydd i’w gwella gan fonitro a gweithredu ar y canfyddiadau**

Cynnydd da iawn wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r ysgol wedi grymuso ei gweithdrefnau a’i strwythurau ar gyfer hunanarfarnu ac, yn sgìl hynny, mae cynllun gwella'r ysgol yn fanwl ac yn hylaw. Ers yr arolygiad, mae’r ysgol wedi datblygu fframwaith effeithiol ar gyfer gwerthuso cynnydd sydd yn seiliedig ar yr argymhellion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol sy’n eu galluogi i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn gynhwysfawr ac yn arfarnol.

Yn sgil y cydweithio agos ymysg yr holl staff, mae mwyafrif o flaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol dros y ddwy flynedd nesaf, yn cysylltu’n glir â’r hunanarfarniad. Mae cynllun gwella’r ysgol yn cynnwys targedau meintiol yn ogystal â meini prawf llwyddiant priodol a chyfrifoldebau staff. Er bod sylw cadarn yn cael ei roi i werthuso camau gweithredu, nid yw’r targedau hyn yn cynnwys ystyriaethau cyllidol ddigon manwl bob tro.

Mae’r ysgol yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn rheolaidd. Rhennir canfyddiadau gweithgarwch monitro gyda’r holl staff yn ystod cyfarfodydd wythnosol, gan gynnwys adroddiadau gan lywodraethwyr. Trwy gymryd rhan weithredol yn y weithdrefn hunanarfarnu, mae gan yr athrawon, y cynorthwywyr dysgu a’r llywodraethwyr berchnogaeth briodol ohoni. O ganlyniad, mae gwelliant i’w weld eisoes yn safon yr addysgu a’r cynllunio.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.